



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

**Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg
Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor
y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol
athrawon**

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2016
Camau i'w cymryd: Atebion erbyn 14 Tachwedd 2016

Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol athrawon

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn gwahodd sylwadau ar y meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru a'r cynigion ar gyfer datblygu swyddogaethau a rôl Cyngor y Gweithlu Addysg.

Sut i ymateb Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **14 Tachwedd 2016** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>

Manylion cyswllt Am ragor o wybodaeth:

Uned Strategaeth y Gweithlu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
e-bost: ITEducationAddysgGA@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: Julie Owens 0300 062 5484

Diogelu data

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Crynodeb	2
1. Cefndir	3
2. Y sail resymegol dros newid	5
3. Y cynnig o dan ystyriaeth	10
4. Amseriad	11
5. Sut i ymateb i'r cynigion hyn	12

Atodiad: Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru [nid yw yn y ddogfen]

Crynodeb

Cyflwynodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd Addysg y Cabinet, ei blaenoriaethau ar gyfer rhaglen newid hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru ar 20 Medi 2016. Pwysleisiwyd bod rhaid i ni ysgogi, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysgu er mwyn codi safonau'n gyffredinol. I gyflawni hyn, rhaid rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth orau bosib i athrawon, gan gychwyn gydag addysg gychwynnol athrawon a dal ati gydol gyrfa'r athro.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu'n sylfaenol bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn haeddu addysg o'r radd flaenaf, gan gydnabod hefyd fod pob ymarferydd addysgol am wneud popeth o fewn ei allu i weithredu'r hawl hwn.

Yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru – *Dyfodol Llwyddiannus*, dywedodd yr Athro Graham Donaldson y byddai llwyddo i ymgorffori cynigion yr Adolygiad ar ddibenion a strwythur y cwricwlwm yn dibynnu yn y pen draw ar beth sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae goblygiadau sylweddol i ddatblygu a meithrin athrawon a fydd yn ymarferwyr myfyriol, a chydabyddir y bydd gweithredu cynigion yr Adolygiad yn cydblethu'n agos iawn â gwaith diwygio ehangach sydd ar y gweill i faes addysg athrawon.

Yn 2015, amlinellodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, gynlluniau ar gyfer diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru yn seiliedig ar argymhellion adroddiad yr Athro John Furlong, *Addysgu Athrawon Yfory*. Bydd gweithredu'r diwygiadau hyn yn ein helpu ni i sicrhau bod ein hathrawon newydd yn barod i ddarparu'r cwricwlwm newydd.

Ym mis Medi 2015, ymrwymodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, i gasglu safbwyntiau'r rheiny o fewn y system addysg yng Nghymru ar ddatblygu mwy o rôl i Gyngor y Gweithlu Addysg fel corff proffesiynol sy'n debycach i'r hyn a geir mewn proffesiynau eraill. Gallai'r corff, er enghraifft, bennu safonau ar gyfer ymuno â'r proffesiwn, achredu a chefnogi amrywiaeth o ddysgu proffesiynol yn ogystal â chyflawni ei rôl gyfredol o gofrestru proffesiynol a chynnal achosion disgyblu.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd Addysg y Cabinet fod yr ymgynghoriad hwn yn gam hollbwysig o ran cydnabod y gwerth a'r gwahaniaeth y gall system AGA gwirioneddol gydweithredol eu gwneud pan fo prifysgolion ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth go iawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y canlynol:

- Bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael mwy o rôl o achredu AGA trwy sefydlu pwyllgor achredu penodol;
- Y meini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni astudio AGA yng Nghymru sydd wedi'u drafftio gan y Grŵp Achredu Addysg Athrawon ar ran Llywodraeth Cymru.

Gan fod llawer o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi digwydd eisoes, mae Ysgrifennydd Addysg y Cabinet wedi cytuno ar gyfnod ymgynghori byrrach o 7 wythnos.

1.Cefndir

1.1. Mae *Cymwys am Oes*¹ yn amlinellu amcanion strategol clir ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a chymwysterau gan gydnabod rôl ganolog y gweithlu addysg yn y dasg o gyflawni ein gweledigaeth, drwy:

- *weithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gryf wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio*
- *arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunan-wella, gan helpu a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol.*

1.2 Yn ei adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus*, nododd yr Athro Graham Donaldson weledigaeth radical ar gyfer dyfodol y system addysg yng Nghymru. Mae'r Athro Donaldson yn credu'n gryf y dylai'r gwaith o wireddu ei gynigion gyfer y cwricwlwm newydd gael ei seilio'n gadarn ar egwyddor sybsidiaredd gydag ymarferwyr yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau yn eu hysgolion a'u dosbarthiadau am sut i ddatblygu'r cwricwlwm a'i ddarparu i ddiwallu anghenion eu cyd-destun lleol.

1.3 Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol yr Athro Furlong, '*Addysgu Athrawon Yfory*', ar 9 Mawrth 2015. Yn ei adroddiad, daeth yr Athro Furlong i'r casgliad bod addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru ar groesffordd allweddol. Os yw'r proffesiwn addysgu ei hun am wneud cyfraniad gwirioneddol i godi safon addysg yn ein hysgolion, yn y ffordd a gynigir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, mae angen math o AGA sy'n bosibl i'w ehangu yn hytrach nag un cyfyngedig, un sy'n cynnig y sgiliau, y wybodaeth a'r cadernid i athrawon fel y gallant arwain y newid fydd ei angen.

1.4 Ymhlith argymhellion allweddol *Addysgu Athrawon Yfory* mae un inni gyflwyno dull mwy cadarn o achredu rhaglenni AGA yn y dyfodol i sicrhau bod darpariaeth AGA fel ag y mae yn gwella; bod y dull hwn yn golygu partneriaeth wirioneddol a thrafodaeth agored gydag ysgolion arweiniol i gefnogi a meithrin gallu'r gweithlu; a'i fod mewn lle da i ymateb i heriau gweithredu system addysg newydd yng Nghymru.

1.5 Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen – Grŵp Achredu Addysg Athrawon – i ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru.

1.6 Nod y meini prawf newydd yw gwella ansawdd a chysondeb darpariaeth, cyflwyno ymagwedd newydd at AGA a sicrhau bod pob cwrs AGA yn bodloni dyheadau uchel ar gyfer AGA o'r radd flaenaf yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu a diwygio'r meini prawf achredu o bryd i'w gilydd. Er hynny, fel y nodwyd uchod, Cyngor y Gweithlu Addysg fydd yn gyfrifol am achredu cyrsiau penodol yn y dyfodol o dan y cynigion hyn.

1.7 Er bod cyd-destun system addysg Cymru wedi newid rhywfaint, ychydig mae'r cysyniad o reoleiddio proffesiynol wedi newid dros y degawd diwethaf. Mae cyrff rheoleiddio proffesiynol yn arwain gwelliannau mewn ymarfer proffesiynol drwy bennu gofynion ar gyfer ymuno â'r proffesiwn, cynnal safonau gweithwyr yn y proffesiwn, sicrhau ansawdd a chefnogi gweithwyr i fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol effeithiol.

¹ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf>

1.8 Cafodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei ad-drefnu a'i ail-enwi gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (Deddf 2014), gan ehangu cylch gwaith y corff a chyfansoddiad ei aelodaeth i fod yn Gyngor y Gweithlu Addysg o 1 Ebrill 2015. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor ddyletswydd i greu a chynnal cofrestr o athrawon ysgol, athrawon Addysg Bellach, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion mewn ysgolion ac AB. Mae cofrestru'n ofynnol ar gyfer y categori y mae'r unigolyn yn dymuno gweithio ynddo. Heb gofrestru o'r fath, ni chaiff yr unigolyn weithio yn y proffesiwn cofrestredig hwnnw boed ar sail cyflogedig neu hunangyflogedig.

1.9 Mae Ddeddf 2014 yn cyflwyno prif swyddogaethau Cyngor y Gweithlu Addysg (gweler adran 4 o Ddeddf 2014) ac yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru ychwanegu swyddogaethau i'r Cyngor hwnnw. Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n cofrestru'r gweithlu ar hyn o bryd, yn pennu cod ymddygiad proffesiynol, yn ymchwilio i ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol fel rhan o'i swyddogaethau disgyblu, ac yn darparu cyngor ar faterion allweddol sy'n effeithio ar y proffesiwn. Caiff y prif swyddogaethau hyn eu hariannu gan ffi cofrestru a delir gan y gweithlu.

1.10 Yn *Addysgu Athrawon Yfory*, awgrymodd yr Athro Furlong y dylai'r corff rheoleiddio proffesiynol fod yn gyfrifol am y broses o achredu rhaglenni AGA, fel sy'n digwydd yn rhannau eraill y DU ac mewn gwledydd tramor, ac y dylid sefydlu Bwrdd Achredu Addysg Athrawon o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg i ymgymryd â'r rôl hon. Nod ein cynigion yw gweithredu'r cynnig hwnnw trwy ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor y Gweithlu Addysg sefydlu pwyllgor i fynd i'r afael â hyn. Er bod yr Athro Furlong yn argymhell sefydlu Bwrdd, rydym o'r farn y byddai sefydlu pwyllgor o Gyngor y Gweithlu Addysg yn bodloni'r argymhelliad hwnnw'n llawn.

2.Y sail resymegol dros newid

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i greu, yn systematig, hinsawdd newydd o ddisgwyliadau uwch ar gyfer ysgolion². Er bod AGA yn cael ei chydabod fel cyfrannwr pwysig tuag at ansawdd addysgu yn y rhan fwyaf o wledydd â systemau ysgolion uwch, mae'r dystiolaeth o arolygon a hunanasesiadau yn dangos nad yw'r ddarpariaeth AGA yng Nghymru yn bodloni'r safonau a osodwyd gan y perfformwyr uchaf yn fyd-eang.

2.2 Yn *Addysgu Athrawon Yfory*³ daeth yr Athro Furlong i'r casgliad bod ansawdd AGA yng Nghymru wedi dirywio ers ei adroddiad cynharach yn 2006. Ategwyd hyn gan yr Athro Ralph Tabberer yn ei adroddiad ar AGA yn 2013. Er bod llawer o unigolion a sefydliadau yn dal i fod yn ymrwymedig iawn i ddarparu AGA o ansawdd da, mae *Addysgu Athrawon Yfory* yn dweud nad yw addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru o'r ansawdd ofynnol i ddatblygu'r athrawon sydd eu hangen ar Gymru heddiw ac yfory. "Mae angen system sefydlog, o safon uchel er mwyn i sefydliadau ac unigolion ffynnu".

2.3 Credwn fod diwygio'r ffordd o achredu AGA yn ffactor allweddol o ran sicrhau bod perfformiad addysgol mewn ysgolion yn gwella. Bydd y newidiadau arfaethedig yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gorff proffesiynol (Cyngor y Gweithlu Addysg) i achredu rhaglenni AGA unigol, a bod ailachredu'n ofynnol bob 5 mlynedd.

2.4 Cynigir bod y broses bresennol o achredu darparwyr hyfforddiant yn cael ei disodli gan system o achredu rhaglenni astudio AGA. Trwy hyn, bydd modd gwneud ystyriaeth fwy penodol o sut fydd rhaglenni'n codi safon y ddarpariaeth ac yn denu'r bobl iawn gyda'r sgiliau a'r cymwysterau iawn a'r ddawn i addysgu, i ymuno â rhaglenni hyfforddi athrawon.

2.5 Mae'n rhaid i raglenni astudio AGA y dyfodol yng Nghymru allu cynhyrchu ymarferwyr myfyriol, newydd gymhwyso sydd â'r cymwysterau, y sgiliau a'r awydd priodol i gyflawni yn erbyn yr agenda addysg well a amlinellir yn *Cymwys am Oes*. Mae'r un mor bwysig bod y gwaith i ddiwygio AGA a amlinellir yn *Addysgu Athrawon Yfory* yn ategu'r gwaith a wneir mewn mannau eraill i weithredu'r Cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd fel y nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus* ac yn *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*⁴.

² Tabberer, R. (2013) Adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-review-of-initial-teacher-training-in-wales-cy.pdf>

³ Addysgu athrawon yfory - Mawrth 2015 <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy>

⁴ *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* – dogfen sy'n nodi'r cynllun ar gyfer gweithredu argymhellion Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.

Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

2.6 Yn 2015, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen – Grŵp Achredu Addysg Athrawon – i ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Y nod oedd gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth AGA a chyflwyno ffordd newydd o gyflwyno addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Roedd y grŵp yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- John Furlong (Cadeirydd), Athro Emeritws Addysg, Prifysgol Rhydychen a chyn Gynghorydd AGA i Lywodraeth Cymru;
- Hayden Llewellyn, Prif Weithredwr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Cymru;
- Sarah Lewis, AEM, Swyddog Arweiniol Estyn ar Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon;
- Geraint Rees, Cynghorydd Proffesiynol Ysgolion ac Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru;
- Richard Daugherty, Athro Emeritws Addysg a chyn Ddeon y Celfyddydau, Prifysgol Aberystwyth;
- Dr Aine Lawlor, cyn Brif Weithredwr, Cyngor Addysgu Iwerddon.

2.7 Mae'r ddogfen ategol yn Atodiad: *Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*, yn nodi'r meini prawf a ddatblygwyd gan y Grŵp Achredu Addysg Athrawon. Bydd gofynion derbyn AGA i unigolion yn parhau'r un fath.

2.8 Mae safonau proffesiynol i athrawon yng Nghymru yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y meini prawf achredu drafft gan fod gwaith yn dal i gael ei wneud ar y safonau ac fe fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw bydd y safonau proffesiynol newydd yn cael eu cynnwys yn y meini prawf achredu terfynol.

2.9 O dan y trefniadau newydd arfaethedig, bydd Estyn yn parhau i chwarae rôl hollbwysig yn cynnal a gwella ansawdd AGA. Mae cynigion drafft ar sut y bydd Estyn yn gweithio ochr yn ochr â'r broses yn y dyfodol wedi'u nodi yn Atodiad 1 y meini prawf drafft.

2.10 Fel rhan o'u gwaith i greu meini prawf achredu newydd nododd y Grŵp Achredu Addysg Athrawon bum maes newid sylfaenol ar gyfer AGA yng Nghymru:

- Mwy o rôl i ysgolion
- Rôl gliriach i brifysgolion
- Bod yn gyd-gyfrifol am y rhaglen
- Cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- Canologrwydd ymchwil.

2.11 Yn ganolog i'r weledigaeth sy'n sail i'r meini prawf achredu newydd mae'r gydnabyddiaeth bod addysg broffesiynol o ansawdd uchel o reidrwydd yn cynnwys nifer o wahanol ddulliau o ddysgu. Gall rhai dimensiynau o addysgu ond cael eu dysgu o brofiad tra bod mathau eraill o ddysgu yn ddeallusol yn eu hanfod. Fodd bynnag, dylai'r rhan helaethaf o'r holl addysg athrawon fod yn seiliedig ar ddysgu sydd yn fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol. Mae tystiolaeth ryngwladol yn pwysleisio bod addysg athrawon o'r radd flaenaf yn cynnwys dwy agwedd: meithrin cysylltiadau clir rhwng theori ac ymarfer mewn

ffordd sy'n helpu myfyrwyr i ddeall ac archwilio cydberthynas theorïau addysg ac arferion ystafell ddosbarth⁵.

2.12 Fel mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill⁶ bellach yn cydnabod, mae'r enghreifftiau gorau oll o addysg athrawon yn rhyngwladol yn seiliedig ar y ffurf ddeuol hon o ddysgu. Dyma'r ffurf o addysg athrawon sy'n mynd i fod yn hanfodol i Gymru os yw gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer ei hysgolion yn mynd i gael ei chyflawni. Mae gan hyn oblygiadau pwysig ar gyfer ysgolion a phrifysgolion a'r modd maent yn cydweithio.

2.13 Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd holl raglenni AGA yn cael eu harwain gan 'bartneriaeth', hynny yw, Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithio'n agos â nifer o 'ysgolion partneriaeth arweiniol'. Y bartneriaeth hon fydd yn bwrw ymlaen â'r rhaglen achredu. Os mai addysg athrawon gwirioneddol gydweithredol yw'r nod, yna mae'n rhaid i'r 'bartneriaeth' – y Sefydliad Addysg Uwch yn ogystal â'u holl ysgolion partner – ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar y cyd o gyfrannu at y rhaglen.

2.14 Bwriad y newidiadau hyn yw gwella ansawdd AGA yng Nghymru, ac yn ei dro, codi safonau addysgu yn ein hysgolion.

2.15 Mae'r meini prawf drafft wedi'u hysgrifennu ar gyfer darparwyr presennol AGA a darpar ddarparwyr, ond dylai hefyd fod o ddiddordeb i bawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru: ysgolion ac athrawon sy'n cydweithio; Estyn; myfyrwyr ymarfer dysgu cyfredol a darpar ymgeiswyr; rhieni; undebau athrawon; Cyngor y Gweithlu Addysg; consortia ac awdurdodau lleol, ac eraill.

Addysg Gychwynnol Athrawon – Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon

2.16 Mae yna ystod o fesurau ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaethau hyfforddiant sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg. O ran AGA, nid yw Llywodraeth Cymru yn rheoli'n uniongyrchol pa gyrsiau a gynigir mewn sefydliadau penodol, yn cynnwys a ydynt yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n rheoli'r cyflenwad o athrawon cychwynnol drwy bennu dyraniadau targed ar gyfer derbyniadau cyffredinol ar gyfer recriwtio i AGA yng Nghymru. Caiff CCAUC wybod am y rhain, ac mae'n ofynnol iddo (o dan Ddeddf Addysg 2005, adran 86(6)(a)) roi sylw dyledus i unrhyw ragolwg ynghylch gofynion am athrawon newydd gymhwyso y caiff wybod amdano gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan CCAUC rôl statudol fel corff achredu holl ddarpariaeth AGA Cymru fel y nodwyd yn Rheoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012.

2.17 Roedd *Addysgu Athrawon Yfory* yn argymhell mai'r corff rheoleiddio proffesiynol, sef Cyngor y Gweithlu Addysg, ddylai fod y corff a fyddai'n achredu yn y dyfodol (yn hytrach na CCAUC fel y cyngor cyllido); ac y dylai Cyngor y Gweithlu Addysg sefydlu Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon i gyflawni'r swyddogaeth honno. Byddai'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r proffesiwn, arbenigwyr ym maes addysg gychwynnol athrawon, pennaeth gweithredol

⁵ DEL (2014) *Aspiring to Excellence. Final report of the international review panel on the structure of initial teacher education in Northern Ireland*. Belfast: Department for Employment and Learning in Furlong (2015) *Teaching Tomorrow's Teachers, Initial Teacher Education in Wales – the case for change*

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-cy.pdf>

⁶ OECD (2012) *Strong Performers and Successful Reformers in Education: Lessons from PISA for the United States*. <http://www.oecd.org/pisa/46623978.pdf> BERA:RSA (2014) *The Role of Research in Teacher Education: Reviewing the evidence*. Adroddiad interim. Llundain: BERA

neu rywun a oedd yn bennaeth tan yn ddiweddar, a chynrychiolydd o Estyn. Yn y pen draw, byddai'r Pwyllgor yn gyfrifol am achredu'r holl raglenni addysg gychwynnol athrawon.

2.18 Mae gan Gyngor Addysgu Cyffredinol (GTC) yr Alban, Cyngor Addysgu Iwerddon (TCI) a Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon rôl yn achredu rhaglenni AGA. Yn achos GTC yr Alban a TCI mae'r rôl hon wedi'i datblygu ymhellach. Mae Pwyllgor Addysg GTC yr Alban yn dirprwyo'r gwaith o graffu ar raglenni a'u gwerthuso i Baneli Achredu Rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys o leiaf ddau aelod cyngor o'r Pwyllgor Addysg ac un arbenigwr allanol o'r cyd-destun addysgol perthnasol. Mae gan baneli awdurdod i wneud penderfyniadau am briodolrwydd rhaglenni dysgu ac i gynghori darparwyr ar eu penderfyniadau. Cyflwynwyd model TCI bum mlynedd yn ôl ac mae'n cynnwys llawer o arferion gorau GTC yr Alban a gweddill y byd. Mae TCI hefyd yn codi ffi am ystyried ceisiadau y mae'n rhaid i sefydliadau addysg uwch sy'n cymryd rhan yn y broses ei thalu.⁷

2.19 Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater o godi ffi, i'w thalu gan Sefydliadau Addysg Uwch, ac fe hoffai glywed am farn rhanddeiliaid ar egwyddor penderfyniad o'r fath (cwestiwn 7). Os bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael grym i godi tâl, disgwylir i'r Cyngor ymgynghori ar y swm i'w godi, cyn gweithredu hynny.

2.20 Bydd ein gwaith i ddiwygio AGA yn cefnogi math newydd o broffesiynoldeb athrawon yng Nghymru, sef y math a gynigiwyd gan yr Athro Donaldson – un sy'n gyfwerth â'r gorau sydd ar gael yn rhyngwladol ac yn addas i wynebu heriau addysgu yn yr 21ain ganrif.

Cynigion ar gyfer datblygu swyddogaethau a rôl Cyngor y Gweithlu Addysg

2.21 Yn ogystal â'i brif swyddogaeth a nodwyd yn Neddf 2014, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gweinyddu nifer o swyddogaethau ar ran Llywodraeth Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, lle mae'n ddarbodus defnyddio eu harbenigwyd a'r wybodaeth a geir yn eu cofrestr o ymarferwyr addysg. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys:

- Dadansoddi data o'r gofrestr ac arolygon o adrannau o'r gweithlu gan ddefnyddio'r gofrestr i gyfrannu at amrywiaeth o ddatblygiadau polisi;
- Argymhellion gan ddarparwyr hyfforddiant sy'n rhoi tystysgrifau Statws Athro Cymwysedig;
- Tracio a chofnodi Athrawon Newydd Gymhwys, yn cynnwys cynnal proffil Sefydlu ar-lein i'r holl athrawon newydd a'u mentoriaid a gweinyddu cyllid;
- Rhoi tystysgrifau sefydlu ac ystyried apeliadau sefydlu;
- Datblygu a gweithredu Pasbort Dysgu Proffesiynol er mwyn i gofrestryddion gofnodi a myfyrio ar ddatblygiad eu hymarfer ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa.

2.22 Mae holl rannau sylweddol ein agenda ddiwygio yn dangos ei bod hi'n bwysig galluogi gweithwyr proffesiynol i gymryd rôl mwy canolog yn y gwaith o arwain, llywio a chyflawni newid yn y proffesiwn. Mae'n adeg briodol, felly, i ystyried sut y gellir trosglwyddo mwy o sbardunau ar gyfer sicrhau newid mewn ymarfer i'r proffesiwn.

2.23 Bydd gwella rôl Cyngor y Gweithlu Addysg yn galluogi'r proffesiwn addysg i siarad ag un llais; o ran gwneud polisiâu ac arwain gwelliannau mewn safonau a'r broses o newid. Gallai pwyllgor o Gyngor y Gweithlu Addysg gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan

⁷ Mae'r ffioedd y gall Cyngor Addysgu Iwerddon eu codi i'w gweld yn: <http://www.teachingcouncil.ie/en/Registration/Forms-and-Fees/Fees/>

gynnwys cynrychiolaeth o'r proffesiwn addysgu ein hun.⁸ Byddai hefyd mewn lle da i arwain a chydgysylltu addysg athrawon ar lefel genedlaethol, tra ar yr un pryd, yn cadw hyd braich o Lywodraeth Cymru. Wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb am achredu darparwyr addysg athrawon, byddai Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyd-fynd â rôl sawl corff proffesiynol arall: byddai hefyd yn anfon neges gref am y proffesiwn addysg yn arwain y ffordd galla'i addysg broffesiynol ei hun. Mae'r model hwn wedi'i fabwysiadu yn yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon, lle mae i'w weld yn gweithio'n dda.

⁸ Furlong (2015) Addysgu Athrawon Yfory, Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru – yr achos dros newid Initial Teacher Education in Wales – the case for change <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-cy.pdf>

3.Y cynnig o dan ystyriaeth

3.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â dwy agwedd ar raglen newid AGA a fydd yn helpu i lunio system addysg sy'n addas ar gyfer y dyfodol:

1. Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru. Mae'r meini prawf hyn wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru a byddant yn parhau felly yn y dyfodol;
2. Cynigion ar gyfer datblygu swyddogaethau a rôl Cyngor y Gweithlu Addysg, sy'n eu gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor achredu rhaglenni astudio AGA.

3.2 Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylid datblygu swyddogaethau Cyngor Gweithlu Addysg annibynnol er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cyfoes a blaenoriaethau sy'n newid. Byddai gwelliant o'r fath yn golygu nad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fydd yn gyfrifol am agweddau penodol ar AGA mwyach (fel yr aymghellir yn *Addysgu Athrawon Yfory*). Fodd bynnag, bydd gan CCAUC rôl bwysig o hyd o ran darparu rhaglenni AGA ac yn dal yn gyfrifol am weinyddu arian tuag at hyfforddi athrawon.

3.3 Nod y dull newydd hwn yw sicrhau'r gwelliannau rydym ni oll am eu gweld i ddeiliannau dysgu, drwy fuddsoddi yn natblygiad gweithlu medrus, proffesiynol ac ymroddedig.

3.4 Mae swyddogaeth estynedig Cyngor y Gweithlu Addysg mewn perthynas ag AGA yn dangos ymddiriedaeth yn y proffesiwn ac yn cyd-fynd â'r ethos bod rhaid i'r proffesiwn gymryd cyfrifoldeb am arwain newidiadau mewn addysgu, arweinyddiaeth ac am ddatblygu a chefnogi'r proffesiwn ar y cyd. Mae'r dull hwn yn cefnogi safbwyntiau yr Athro Donaldson a'r Athro Furlong am amodau gweithredu eu hargymhellion, ac yn cyd-fynd â threfniadau llywodraethu proffesiynol effeithiol mewn amryw o broffesiynau eraill ac yn system addysg Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, yr Alban a gwledydd y tu allan i'r DU (Awstralia, Seland Newydd a Chanada).

4. Amseriad

4.1 Y bwriad yw cael y meini prawf achredu newydd ar waith erbyn gwanwyn 2017. Bydd amseriad a hyd a lled unrhyw drosglwyddo swyddogaethau i Gyngor y Gweithlu Addysg yn cyd-fynd â chynlluniau gweithredu ar gyfer y Cwricwlwm newydd (dros 3-5 mlynedd). Ond bydd rhaid i'r trefniadau ar gyfer achredu darpariaeth AGA fod ar waith erbyn hydref 2017 fan bellaf i sicrhau bod pob cwrs AGA o fis Medi 2019 yn cael eu hachredu yn erbyn y meini prawf achredu diwygiedig.

4.2 Cynhelir y cylch achredu bob 5 mlynedd, er mai dim ond am 1 neu 2 flynedd y gall hyn fod dros dro. Bydd yn dechrau gyda'r holl raglenni sydd angen eu cyflwyno i'w hachredu yn unol â'r amserlen ganlynol. Cynigir y bydd angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon i gynnal unrhyw raglen AGA yng Nghymru o fis Medi 2019 ymlaen.

Gweithredu	Dyddiad
Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gael i ysgolion a lleoliadau yng Nghymru	1 Medi 2016
Partneriaeth i anfon "datganiad o fwriad" i gyflwyno rhaglen i'w hachredu i Lywodraeth Cymru	Erbyn 6 Ionawr 2017
Partneriaeth i gyflwyno rhaglen/ni AGA i'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon i'w hachredu yn erbyn meini prawf achredu	Erbyn 1 Rhagfyr 2017
Y Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon i asesu rhaglenni ac i wneud penderfyniadau ar ddyfarnu, gohirio neu wrthod achrediad	Erbyn 29 Mehefin 2017
Trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd ar gael	Medi 2018
Partneriaeth AGA i ddechrau marchnata ei rhaglen i ddarparu athrawon dan hyfforddiant	3 Medi 2018
Partneriaeth AGA i ddechrau darparu rhaglen newydd	2 Medi 2019
Cwricwlwm a threfniadau asesu newydd ar waith	Medi 2021

5. Sut i ymateb i'r cynigion hyn

5.1 Mae rhai cwestiynau penodol wedi'u rhestru yn y ffurflen ymateb ar wahân ac mae croeso i chi ddarparu atebion i'r cwestiynau hyn neu gyflwyno sylwadau mwy cyffredinol. Gallwch eu cyflwyno'n electronig neu fel copi caled, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 2 y ddogfen hon.